# DINESYDD

## HYDREF

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1982

RHIF 90

# DIM DIMAI GOCH A'I HWN YW'R RHIFYN OLAF?




O dro i dro bu angen apelio at ddarllenwyr y Dinesydd, ac at y Cymdeithasau (sef y Cymdeithasau Cymraeg o bob math, y Capeli a'r Eglwysi Cymraeg) yn y Brifddinas a'r Cylch am gymorth ariannol. Ni fu cywilydd gennym wneud hyn oherwydd mai eich cyfrwng chwi - y Cymry Cymraeg - ydyw, ac fe'i cewch yn rhad ac am ddim. Heb unrhyw ymddiheurad, rhaid apelio eto am gyfraniadau sylweddol oherwydd fod DYFODOL Y PAPUR YN Y FANTOL. Y gwir plaen yw os na dderbynir rhai symiau sylweddol yn y dyfodol agos, bydd rhaid i'r Pwyllgor Rheoli ystyried yn ddifrifol i beidio â chyhoeddi rhagor o rifynnau ar ôl y mis hwn. Mae'r sefyllfa mor ddifrifol a hynny.

Mae'n naturiol ichi ofyn paham y daeth y fath sefyllfa i fod; a fu aneffeithiolrwydd neu flerwch gyda materion busnes a thrin arian? Yr ateb yw na fu dim o'r fath. Cadwyd costau argraffu a gweinyddol i'r swm isaf posibl, a mawr yw ein dylid i nifer o aelodau o'r Pwyllgor, a hefyd y rhai sy'n gyfrifol am ei ddosbarthu, am roi eu gwasanaeth am ddim a gwrthod derbyn ceiniog am eu costau.

Y rheswm syml am y sefyllfa yw yr un peth ag sy'n effeithio bron pob busnes drwy'r wlad, sef chwyddiant, a'r broblem o ddelio â chynnydd mewn costau a lleihad mewn incwm. Er mwyn cyhoeddi 3,000 o gopiau y mis, y mae angen heddiw £320 o incwm yn fisol. Pan ddechreuodd y Dinesydd yn 1973, £150 oedd cost argraffu 4,500 o gopiau. Mae'r ffigyrau yn siarad drostynt eu hunain.

Daw incwm y Dinesydd o wahanol gyfeiriadau: Grant gan **Gymdeithas** Celfyddydau de-Ddwyrain Cymru, hysbysebion, rhoddion gan y Cymdeithasau ac unigolion yn achlysurol, derbyniadau cyson gan unigolion drwy Archebion Banc, ac o weithgareddau o dro i dro fel y Parti Nadolig, Twmpath a Chodi'r To.

Amrywiol a fu swm y Grant blynyddol. Mae angen gwneud cais amdano at y Gymdeithas bob blwyddyn a'r un pryd cyfiawnhau bodolaeth y papur. Bu unwaith dros £800 ond erbyn hyn aeth i lawr i £500 y flwyddyn. Beth bynnag, da dweud fod sicrwydd wedi ei ddatgan fod yr isafswm hwn i ddod yn flynyddol, ac y mae gobaith fod rhagor ar y ffordd o Gronfa arbennig at roi cymorth i'r papurau bro drwy'r Swyddfa Gymreig. Ond ni ddaeth newydd eto am faint ac amseriad y cyfraniad. Felly ni ellir ddibynnu arno ar hyn o bryd.

Hysbysebion yw'r ffynhonell fwyaf am arian, ac yn un pwysig dros ben i unrhyw bapur. Diau ichi sylwi fod maint a chysondeb yr hysbysebion yn amrywio o fis i fis. Gwaith caled yw cael hyd i ddigon, ac i berswadio hysbysebwyr,yn aml yn bobl ddi-Gymraeg, i roi eu ffydd mewn papur Cymraeg ei iaith gyda chylchrediad bychan. Felly, chi ddarllenwyr sydd mewn busnes neu yn gysylltiedig â sefydliadau sydd yn arfer hysbysebu, defnyddiwch eich dylanwad ar y rhai sy'n gyfrifol, i gefnogi'r Dinesydd.Mae angen o leiaf £100 y mis o'r ffynhonnell hon ac anaml yn ddiweddar y cyrhaeddwyd at y nod. Ceisiwch ddarganfod hefyd hysbysebwyr sydd yn barod i dalu'n brydlon. Mae'n rhyfeddol pa mor araf mae ambell un yn talu ei fil! I dud. 6

# Y CALENDR

Hydref

1 Cymrodorion Caerdydd yn Arwisgo'r Llywydd. Rhaglen Amrywiaethol. Festri Tabernacl, 7.15 p.m.

4 Merched y Wawr, Noson agoriadol. Casglu'r edau. Festri Minny Street, 7.30 p.m.

8 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Pen-lline Road, am 7.30 o'r gloch. Noson yng ngofal Mr. Gerwyn Williams.

8 Cymry'r Wenallt yn y Pantmawr, 8.00 p.m. Siaradwr: Havard Gregory.

9 Cangen Gwent Merched y Wawr. Siaradwr: D.B. Clay Jones, Y Ganolfan Ddinesig, Ystafell 147 am 7.30

14 Cangen Gwent Merched y Wawr. Crefft Cwiltio a Chlytwaith. Y Ganolfan Ddinesig, Ystafell 147 am 7.30

16 Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, 2.30 a 6.00 o'r gloch. Cyfarfodydd Pregethu. Pregethwr gwadd: y Parch. J. Elwyn Davies, Penybont. Te rhwng yr oedfaon. CROESO I BAWB.

25 Merched y Wawr. Cyfarfod gyda Mudiad Ysgolion Meithrin. Swper ac Adloniant £3.50, Neuadd y Sir Cwmbran am 8 p.m.

PETAI POB CYMDEITHAS YN ANFON RHAGLEN Y GAEAF AT MALLT ANDERSON, 158 LAKE RD. EAST, YNA MI FYDDAI YN BOSIBL CAEL CALENDR LLAWN O DDIGWYDDIADAU Y DDINAS AR GYFER DARLLENWYR Y DINESYDD.

Tachwedd

1 Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Rhyfeddod Patrwm a Lliw Siop Jen, gan Jen ei hun. Festri Minny Street, 7.30 p.m.

5 Cymrodorion Caerdydd. Cwmni Drama'r Gadwyn, Radur, Festri Minny Street, 7.30 p.m.

10 Bore Coffi, Ysgol Feithrin Y Waun, King George Vth Drive, 10 - 12 o'r gloch.

11 Cangen Gwent Merched y Wawr. Hud yr Hwiangerddi. Y Ganolfan Ddinesig, Ystafell 147 am 7.30 p.m.

11 Clwb Cinio Merched Caerdydd. Siaradwr: Havard Gregory. Gwesty Thatcher am 7.30 p.m.

12 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Pen-lline Road am 7.30 o'r gloch. Dr. Ceinwen Thomas, 'Tafodiaeth Cwm Taf Morgannwg'.

13 Ffair Nadolig Plaid Cymru yn Neuadd y Ddinas. Agorir gan Lis Miles.

16 Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, Cyngerdd gan Fyfyrwyr Coleg Cerdd a Drama o dan gyfarwyddyd Miss Margaret Tann Williams, 7.30 o'r gloch. Mynediad: £1; Myfyrwyr 50c. Yr elw at Ysbyty Trelai ac achosion da eraill. Tocynnau oddi wrth aelodau'r Gymdeithas.

Rhagfyr

10 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Pen-lline Road, am 7.30 o'r gloch. Dathlu'r Nadolig yng ngofal Mr. John Ewart Jones.

20 Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Dewi Sant dan nawdd Ysgol Feithrin y Waun.

Ionawr

14 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Pen-lline Road, am 7.30 o'r gloch. Noson yng ngofal yr aelodau - 'Pethau Diddorol'.

Chwefror

11 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Pen-lline Road am 7.30 o'r gloch. Mrs. Beti Wyn Davies.

Mawrth

11 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Pen-lline Road am 7.30 o'r gloch. Dathlu Gŵyl Dewi. Gŵr Gwadd: Dr. Elwyn Hughes.

---

Annwyl Olygydd,

Siomedig oedd darllen sylwadau M.O. Nic O'Dean yn y Dinesydd y mis diwethaf. Ysywaeth bu'n rhaid cau nifer o gapeli'r cylch yn ogystal â sinemâu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond tybed a yw M.O. Nic O'Dean yn gwrthwynebu gweld dwy dudalen gyfan yn cael eu rhoi yn rhifyn Awst i sôn am Gapel y Groeswen. Gogoniant y golofn ffilmiau fel y golofn lyfrau hithau yw ei bod yn cynnig amrywiaeth i'r papur. Diolch amdani.

A.M. RYWIOL.


A R B E D  A R I A N !

Yn lle prynu newydd

GLANHEWCH eich carpedi a'ch celfi.

FE DDON NHW FEL NEWYDD

Telerau rhesymol!

Gwaith o safon!

Gwasanaeth cyfeillgar!


Ffoniwch

GWASANAETHAU GLANHAU VIP

NELSON (0443) 450197 yn awr am gyngor rhad.

Os am CONTRACT DIWYDIANNOL gofynnwch am fanylion.

Soniwch am Y DINESYDD am ddisgownt.



# DINESYDD Y PLANT

Dyma nifer o enwau plant ond fel y gwelwch chi mae llythrennau eu henwau yn y drefn anghywir. Ail osodwch y llythrennau.

NITSYE
TGNEIRA
ENIEWR
SCYRA
LHEWY
NOIWA
DHEDEL

NGTEHI
IRODHR
DOSENI
NBHETA
HGTREA
UDEENL
DYDFAD

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| c | o | r | w | e | n | c | p | e | n | a | r | th |
| o | a | c | a | e | r | f | y | r | dd | i | n | d |
| e | b | b | a | n | g | o | r | e | g | h | ll | m |
| l | c | a | b | e | r | t | e | i | f | i | o | y |
| b | o | m | e | t | r | e | g | a | r | o | n | dd |
| r | n | a | r | f | b | d | m | i | c | n | o | f |
| e | w | g | t | o | s | a | y | n | a | e | r | a |
| n | y | o | a | b | a | p | l | dd | r | f | th | i |
| a | s | r | w | e | r | s | r | a | n | y | w | n |
| e | c | a | e | r | n | a | r | f | o | n | f | o |
| b | b | c | s | m | e | r | th | y | r | e | g | p |
| ll | a | n | g | o | ll | e | n | b | a | r | r | i |


Mae'r geiriau yma ar goll o fewn y patrwm o lythrennau. Chwiliwch amdanynt, a rhowch linell drwy bob gair sy'n dod i'r amlwg.

Penarth
Bala
Barri
Llangollen
Corwen
Myddfai
Magor
Carno
Nefyn
Caernarfon
Bangor
Sarn

Conwy
Aberteifi
Merthyr
Caerfyrddin
Bermo
Coelbren
Abertawe
Llanarth
Tregaron
Caerdydd


Sut mae'r bachgen yn mynd adref?





Diolch i G.G. am y llun.

SGWIGL



## COLOFN
### Shan Emlyn

Rhyw fis rhyfedd iawn fydd y mis yma yn tŷ ni. Mis prysur a mis yr addasu mawr. Do, fe ddaeth y dydd. Mae'r cyw melyn ola wedi hedeg o'r nyth, a'r nyth yn rhyfedd o wag heb yr un cyw ynddo. Darfu'r paratoi, prynu trwnc a'i raddol lenwi efo dillad hen a newydd, llyfrau, lluniau, potel ddŵr poeth a ffefrynau fel Tedi a Mistar Urdd. Daeth y prysurdeb a'r llanast i ben. Pwy feddyliai bod rhywun yn gweld colli golchi a smwddio hylltod o grysau chwys sy'n colli'u lliw, trowsusau melfared a jeans blêr. Mae taflen amser y tŷ wedi newid yn llwyr, daeth i ben hwylio pryd o fwyd erbyn y pump 'ma. Mae siâp y dydd wedi newid yn llwyr, mae'r pnawniau'n hwy nag y buont erioed, ag efo gŵr cynddeiriog o brysur dyn a ŵyr pryd mae "amser swper". Ond dyna ni, "dyna'r drefn yn hyn o fyd" a rhaid plygu iddi.

Ar y llaw arall mae 'na awyrgylch o ruthr a phrysurdeb yn dal yn y tŷ, a dyddiau Hydref ar y calendr yn treiglo'n frawychus o gyflym. Daw fe ddaw Tachwedd y cyntaf cyn inni droi - dyddiad tyngedfenol i ni Gymry Cymraeg ag iddo arwyddocad arbennig yn tŷ ni. A fydd popeth yn barod mewn pryd? A fydd yr arlwy'n plesio? Pa mor niferus fydd y gynulleidfa? Ar wahan i ddeud bob hyn a hyn "sgwn i be mae Mari'n 'i neud rwan" dim ond un testun sgwrs sydd 'na. Tydio'n rhyfedd fel mae geiriau yn newid e'u harwyddocad yn y defnydd a wneir ohonyn nhw. Nid am Minny Street nac am Ebeneser y bydda i'n meddwl bellach wrth glywed y gair Annibynwyr. Amhosibl i mi fyth eto fydd meddwl bod y gair Sianel yn gallu golygu dŵr!






Cynhelir Prawf Terfynol Cystadleuaeth i offerynwyr ifanc o Gymru yn Neuadd Dewi Sant ar y 5ed o Dachwedd. Bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr Y Dinesydd glywed bod Betsan Powys wedi ennill ei lle yn y Prawf Terfynol ac y bydd hi a'i thelyn yn Neuadd Dewi Sant ar y 5ed o Dachwedd. Dymunwn yn dda iddi a gobeithio y gallwn gefnogi'r noson - pa ffordd well o ddathlu'r 5ed o Dachwedd na thrwy fynd i wrando ar offerynwyr ifanc yn rhoi'r byd cerddorol ar dân! Gwyliwch y Wasg am fanylion pellach.

---

OS YW EICH CYMDEITHAS EISIAU CODI ARIAN AR GYFER Y NADOLIG ELENI, GALL SIOP ORIEL DREFNU FFAIR LYFRAU I 5 NEU 500 - AM FANYLION PELLACH, FFONIWCH CAERDYDD 395548.

---

## LLONGYFARCH

Yn y rhestr o fuddugwyr Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn ein rhifyn diwethaf, gadawyd allan i David Elias o Lanishen ennill ar Gyfansoddi chwe darn ar gyfer Organ a Gwaith ar gyfer cerddorfa ysgol uwchradd. Hefyd enillodd Ffion Jenkins, Rhiwbeina ar y Gystadleuaeth Clarinet dan 15 oed. Llongyfarchiadau cynnes i'r ddau.

---

Llongyfarchiadau i Seimon Reeves o'r Barri, cyn brifddisgybl Ysgol Gyfun Rhydfelen, ar ennill gradd B.A. (Anrhydedd) mewn Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Warwick. Dechreuodd ar ei swydd ym Manc y National Westminster yn Llundain. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu a'i ffrindiau.

---

Llongyfarchiadau i'r Dr. a Mrs. Idris G. Rowlands, Llandeilo, gynt o Gaerdydd, ar enedigaeth mab bach, Owain Gwynn, a brawd i Sioned, Siôn a Gwenno, ag ŵyr i Mr. a Mrs. Alun Rowlands, Llandaf.

MRS. RHIANNON WHITE

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs. Rhiannon White, priod y diweddar Donald White, 66 Heathway, Caerdydd, a hithau ond yn 57 oed.

Gwraig annwyl, parod ei chymwynas oedd Rhiannon â'i hiwmor tawel yn llonni pob cwmni. Gwelir ei heisiau mewn llawer cylch ond yn fwyaf arbennig collir ei chyfraniad fel aelod ffyddlon a gweithgar yn Ebeneser, Caerdydd.

Collodd ei phriod bedair blynedd yn ôl a chofir yn hir am ei ddiwydrwydd ef fel ysgrifennydd Cymdeithas Rhieni Ysgol Bryntaf am nifer o flynyddoedd.

Gedy ddau fab a merch sef Philip sy'n llawfeddyg yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor; Dafydd, sy'n gyfrifydd gyda Chyngor Morgannwg Ganol ac Elinor sy'n glerc yn Swyddfa Mudiad Ysgolion Meithrin. Cydymdeimlir yn ddwys â hwy yn eu colled.

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**

Yn ddiweddar ymddiswyddodd Mr. Alan Jobbins fel Dosbarthwr y Dinesydd.

Dymunai'r Pwyllgor Rheoli ddatgan'i ddiolchgarwch a'i werthfawrogiad cynhesaf o waith Alan ar hyd y blynyddoedd. Gwnaeth ei waith â graen, ac ni dderbyniodd unrhyw dâl am y costau teithio. Diolch yn fawr Alan am eich holl lafur caled.

Canlyniad Râs Falŵns a gynhaliwyd yn Ffair Haf Ysgol Melin Gruffydd, a'r enillydd oedd Meuryn Rees, 19 Plas y Llan, Yr Eglwysnewydd. Fe deithiodd y balŵn i'r Iseldiroedd. Derbyniodd Meuryn £5 o wobr.

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Tachwedd at Mrs. N. Couch, 2, Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, (Tel. 753625) erbyn Hydref 20fed.


Y SADWRN CYNTAF

Roedd yna ambell un wedi bod yn ymarfer yn weddol rheolaidd trwy'r haf. Roedd 'na rai eraill wedi cael esgidiau newydd sglein. Roedd 'na eraill eto yn crwydro o gwmpas fel bustuch trwsgl, yn ansicr o'u camrau fel pe baent wedi eu pesgi ar gyfer y farchnad.

Roedd 'na beth brwdfrydedd hyd yn oed, yn ystod y deuddydd neu dri cyn y dydd Sadwrn tyngedfennol hwnnw yn nechrau Medi a olygai ddechrau'r tymor peldroed newydd unwaith yn rhagor.

Cafwyd ymarfer llawn ar y nos Fawrth, ac yna yn goron ar y cyfan, cafwyd prawf ar nos Iau, y cyntaf yn hanes y Clwb. Prawf beth tybed, toedd megin y mwyafrif ddim yn llawn abal i roi prawf anadl heb sôn am chwythu a phwmpio am awr a hanner o gêm. Ta waeth, roedd mwy na digon i ddewis dau dîm ar gyfer y gemau cyntaf ar faes Pontcanna.

Roedd 'na wynebau cyfarwydd yno, wynebau ac oes o brofiad ym mhob defnyn o chwys a grynhoai o bob rhan o'r corff; roedd 'na wynebau hen yno hefyd, heb enwi neb; wynebau ifanc yn llawn sioncrwydd a gallu; a wynebau dieithr hefyd - croeso iddynt i gorlan y breintiedig ac etholedig rai - nid pawb sy'n cael y cyfle i gyfranogi a



chymysgu yn y 'pethe' ar bnawn Sadwrn mewn trowsus bach.

Roedd y bore dydd Sadwrn yn un arbennig - torrodd y wawr fel arfer yn ffres a chynnil - codi tua'r un amser ag arfer, yn wir methu a chysgu yn hwyrach oherwydd y cyffro mewnol yma a ddigwydd bob dechrau tymor. Y traed yn cicio, y bysedd traed yn tincial, a'r stumog yn anwadal. Bwyta brecwast yn fwy bler nag oedd angen, llowcio'r te o'r cwpan, llyfu'r mêl o'r tost, a cholli hanner y bwyd llefrith oddi ar y llwy yn fy mrys i lanhau gwaelod y ddesgil.


Anghofio agor drws y garej i adael y gath allan a hwnnw yn ei ffordd ddihafal ei hun yn mewian a chreu stŵr, digon i atgoffa pobl drws nesa o'i sefyllfa bid siŵr.

Galw yn y siopau lleol i wneud fy nyletswydd ac yna yn ôl i roi'r traed i fyny tan amser cinio. Gwrando trwy gwmwl ar 'Sosban' yn ffrwtian a chofio'n sydyn fod yr esgidiau peldroed heb eu symud o'u congl ers diwedd y tymor diwethaf. Credu mai gwell fyddai rhoi trefn arnynt cyn hanner awr wedi dau'r prynhawn, a chwilota a thyrchu o dan y twmpath papur newydd yn y twll dan grisiau amdanynt. Roedd y sgidiau yno'n daclus, braidd yn llychlyd, ond dyna nhw'n gymysg â'r toreth cylchgronau merched rheini sy'n crynhoi ymhob cartref swbwrbia. Yn wir roedd 'Problem Page' wedi ei stwffio i flaen pob esgid i'w cadw mewn siâp, a rhyw funud wan wedyn oedd cael dadwneud y tudalennau crebachllyd a'u darllen am ennyd i weld a oedd ynddynt unrhyw gysur i un fel fi. Pwl bach o chwerthin ysgafn wrth ddarllen hanes un a'i ysgrifenyddes, y llall a'i fam yng nghyfraith - yn ôl a nhw i'r twll dan grisiau.

Cinio ysgafn wedyn - wedi arfer cael cinio ysgafn adra hefo mam cyn y gemau pwysig rheini ers talwm yn lliwiau Talysarn Celts a Phenygroes yng Nghyng-hrair Caernarfon a'r Cylch - a throi'r teledu ymlaen i wrando a gweld hanesion y sêr peldroed a cheisio ysbrydoliaeth o rhywle. Ambell i gôl go daclus wedi ei sgorio eisoes y gymor hwn, a'r gobaith yn dechrau dod i'm cof am yr hyn a allai fod y prynhawn yma. Breuddwydio am weld y rhwyd yn llenwi, fel petai'n llawn o benwaig, wrth i'r bêl daro fel ergyd o wn i'w chongl bellaf a phawb o'r bechgyn yn rhyfygu mewn ecstasi o ryddhad.....cyrraedd maes Pontcanna am ddau ar gyfer cychwyn am hanner awr wedi. Y ceir fel o'r blaen yn blith drafflith yn y maes parcio a thyrau o fechgyn gyda'u bagiau yn sefyllian yma ac acw yn disgwyl yn eiddgar am eu cyfle i wneud marc yn y gêm.

Cerdded draw i'r stafell newid, a'n bechgyn ni yno eisoes yn newid i'r crysau gwyrdd rheini sydd yn gwneud cawr o bob corach. Cilwg i'r ochr draw, ond y lle yn wag - fe ddaw'r gwrthwynebwyr cyn hir. Newid, sgwrsio, chwerthin nerfus, trafod, tawelwch, cyn mentro allan ar y cae i osod y rhwydi i fyny a chael cyfle i ystwytho'r cymalau cyn i'r gŵr yn y siwt ddu gyda'i chwiban gyrraedd. Clymu'r rhwydi neilon oren yn sownd yn y pyst gwyn, a thrafod ychydig ymhellach beth fyddai'r drefn i fod yn ystod y gêm. Pum munud, deg munud, chwarter awr a ninnau'n dal i gicio i'n gilydd - tafle trem i gyfeiriad yr ystafell newid pob hyn a hyn i weld a oedd unrhyw olwg ar y gwrthwynebwyr - crwydro'r maes i chwilio rhag ofn eu bod ar un o'r caeau eraill yn disgwyl amdanom, ond na, dim arlliw ohonynt yn unman, na hyd yn oed y dyfarnwr na'i chwiban. Wedi'r holl baratoi a'r poeni, roedd y gêm gyntaf wedi mynd yn fethiant llwyr a toedd dim amdani ond troi tua thref, tynnu'r rhwydi fel pysgotwyr tir sych, newid, a mentro i'r Clwb Trydan i drafod y gêm a allem fod wedi ei hennill - tybed.

Nid oedd pob Sadwrn fel y cyntaf serch hynny a dyma ganlyniadau'r gemau a chwaraewyd hyd yma.



Y Tîm Cyntaf

- v Gwaelod y Garth, ennill 3-1 (Elwyn Dafis,2 Ken Passmore)
- v Allied Steel, colli 1-2 (Dafydd)

Yr Ail Dîm

- v Avenue Hotspur, colli 2-3 (Mel, Kevin)
- v BTD Stars, colli 0-1
- v Coleg Llandaf, colli .2-4 (Elwyn Dafis 2)
- v Cardiff Freebooters, colli 2-5 (Andrew 2)

Cofiwch am ymarfer bob nos Fawrth yn Ysgol Glantaf o 6 hyd 7.30. Brysied i wella Rob Sanger ar ôl ei driniaeth lawfeddygol.

O'r dudalen flaen

Pan ymddangosodd y Dinesydd gyntaf, anfonwyd cylchlythyr at y Cymdeithasau yn gofyn am gymorth blynyddol cyson, ac anfonwyd cylchlythyr arall tebyg ym mis Hydref 1979. Er i'r ymateb i'r ddau gylchlythyr fod yn dda, tueddir i anghofio anfon yn gyson ac i gysidro fod angen gan y Dinesydd am ragor bob blwyddyn oherwydd y lleihad yng ngwerth y bunt. Diddorol yw sylwi ar gyfraniadau'r Cymdeithasau am y pum mlynedd diwethaf. Yn 1977/78 daeth £175 i law'r Trysorydd, yn 1978/79, £78; yn 1979/80, blwyddyn yr apêl, £356, ac yn 1980/81, £127, yn 1981/82, £143, ac eleni 1982/83 o Ebrill hyd ddiwedd Medi, £5 yn unig! Rhaid dweud fod un Gymdeithas yn unig, sef Dysgwyr Cymraeg Canolfan yr Urdd wedi cyfrannu £250 yn y pum mlynedd hyd 31 Mawrth eleni allan o gyfanswm o £845; felly cyfanswm o'r holl gymdeithasau eraill oedd £595 mewn pum mlynedd. Hefyd yn 1979/80, blwyddyn yr apêl, cynhaliodd Cymdeithas Gymraeg Llanedeyrn a Phentwyn noson gymdeithasol at y pwrpas o godi arian at y Dinesydd gan lwyddo i godi £50. Esiampl dda. Rhaid felly apelio yn daer at yr holl Gymdeithasau ar ddechrau tymor newydd a gofyn iddynt yn ddifrifol a oes ganddynt ddiddordeb yn nyfodol y Dinesydd, ac os oes, anfon cyfraniad, ond gwell fyth, cysidro ryw weithgaredd neu weithgareddau i godi arian.

Y brif ffynhonnell arall yw'r taliadau a wneir yn gyson gan nifer o unigolion, rhai yn fisol, a rhai yn flynyddol, drwy archebion banc. Daeth yr rhain i fodolaeth yn gyntaf yn 1973 fel ymateb i apêl ein Llywydd cyntaf a'n sefydlydd, y Dr. Meredydd Evans. Ar y pryd, gofynwyd i bobl gyfrannu £2 y flwyddyn at y Dinesydd drwy roi archeb i'w banc i dalu i fanc y Dinesydd swm penodedig bob blwyddyn, neu bob mis. Erbyn hyn mae £2 y flwyddyn yn fychan o swm ac yn naturiol oherwydd colli ei werth yn gyfraniad llai yn ymarferol erbyn hyn. Gwnaed apêl arall ynglyn ag archebion banc yn 1979 ac ychwanegwyd nifer dda at y rhestr, rhai yn talu £5 y flwyddyn a rhai yn fwy, £10, ac ambell un £15 ac £20. Mantais fawr cynllun o'r fath yw fod yr incwm yn gyson ac yn galluogi'r Trysorydd i wybod beth i'w ddisgwyl o fis i fis. Erbyn hyn, gellir dibynnu ar dderbyn tua £500 y flwyddyn. Yn anffodus nid yw yn awr yn hanner digon. Byddai ychwanegiadau at y nifer o gyfrannwyr ac at symiau'r cyfraniadau unigol yn gymorth mwr. Tybed a ellir dyblu'r incwm hwn at £1,000 y flwyddyn. Byddai ei godi at £1,500 y flwyddyn yn peri i broblemau'r Pwyllgor ddiflannu!

Felly, erfynir yn daer iawn ar bob un ohonoch i gysidro a ellwch fforddio isafswm o £5 y flwyddyn, neu dyweder £1 y mis, ac os teimlwch y gellwch arwyddo'r archeb banc a ymddengys yn y rhifyn hwn ar unwaith a'i anfon at y Trysorydd. Mae'n bwysig iddo ei dderbyn yn y lle cyntaf er mwyn ei nodi, ac wedyn bydd yn ei anfon at eich banc. Nid oes angen ond cant o gyfranwyr £5 i godi'r ffynhonnell hon £500 yn rhagor. Erfynnir hefyd ar y rhai sydd yn dal i gyfrannu £2 i godi eu cyfraniad i £5.

Cyn darfod y llith hon, rhaid cyfeirio at y cwestiwn a ofynir o dro i dro gan ambell un, sef paham na werthir y Dinesydd? Mae amgylchiadau Caerdydd a'r cylch yn wahanol i amgylchiadau ardaloedd eraill, sef trefi bychain a phentrefi lle gwerthir y papurau bro; cymdeithas mwy clos o lawer, lle bo modd sefydlu trefniadaeth weddol syml o werthu'r papurau mewn ambell i siop ac o ddrws i ddrws, a chael y tâl yn syth, gyda chefnogaeth sylweddol gan hysbysebwyr lleol. Nid yw'r amgylchiadau hyn yn bodoli yng Nghaerdydd. Mae'r mater wedi ei gysidro ar nifer o adegau gan y Pwyllgor Rheoli a'r un fu'r penderfyniad bob tro. Nid yw'n ymarferol yma. Byddai angen rhwydwaith fawr o werthwyr a dosbarthwyr, mwy o lawer nag sydd gennym yn awr. O bosibl byddai'n Grant yn cael ei ail ystyried ac efallai hefyd y byddai'r rhoddion yn cael eu cwtogi. Ni fyddai sicrwydd am lwyddiant fel menter fasnachol.

I gloi, gobeithir fod yr uchod wedi peri i'n cefnogwyr gael goleuni ar sefyllfa'r papur ac y bydd hyn yn arwain at gymorth ariannol buan o bob cyfeiriad. Am y flwyddyn hyd Fawrth 31, 1982, dangosodd y cyfrifon golled o £460. Yr oedd hyn yn ymarferol bosibl oherwydd arian mewn llaw ar ddechrau'r flwyddyn. Erbyn diwedd y flwyddyn lleihaodd y gronfa i lai na £30. Erbyn hyn mae'r Dinesydd yn gorfod gofyn am fenthyciadau o dro i dro gan y banc ac yn gorfod hefyd gohirio talu'r argraffydd hyd y funud olaf, sefyllfa anfoddhaol iawn.

Onid gwell rhoi'r ffidil yn y to na rhygnu ymlaen fel y bu raid yn y misoedd diweddar?

Mae dyfodol y Dinesydd felly yn nwylo chi y darllenwyr, Cymry Caerdydd a'r cylch. Os ydych yn wir eisiau gweld rhifyn mis Tachwedd yn ymddangos, rhowch eich dwylo yn eich pocedi heddiw!



*Raymond Edwards*

Da iawn mae'n sicr gan ddarllenwyr Y Dinesydd fydd gwybod bod Raymond Edwards, Prifathro y Coleg Cerdd a Drama a fu'n sal yn yr ysbyty dro'n ôl yn awr gartref ac yn gwella bob dydd. Manteisiwn ar y cyfle i'w longyfarch yn galonnog ar dderbyn ohono Ddoethuriaeth Anrhydeddus oddiwrth Brifysgol Americanaidd yr haf hwn.

Rhestr o Danysgrifwyr Cyson (Misol a Blynyddol) drwy Archebion Banc am y flwyddyn Ebrill '81-Mawrth '82)

Mr. a Mrs. Wyn Thomas, Mr. a Mrs. Clive Betts, Mr. a Mrs. I.G. Jones, Mr. W.M. Rogers, Mr. Eddie Rea, Mr. R.T.Jones, Mr. E.V. Evans, Mr. I.W. James, Mr. Bryn Richards, Mr. a Mrs. G. Price, Mr. D.G. Jones, Mr. Dennis Francis, Mr. Ken Kane, Mr. a Mrs. H.S. Parry, Mr. a Mrs. R. Alun Evans, Mr. Leslie Jones, Mrs. Tannwen James, Syr Cennydd Traherne, Mr. J.L. Brace, Mr. M. Price, Mr. a Mrs. Huw Thomas, Mr. a Mrs. John Albert Evans, Mr. E.L. Prytherch, Mrs. Beryl Hall, Mrs. Ethni Jones, Parch Dr. Gwilym ap Robert, Mrs. Annie Humphreys, Mr. a Mrs. Gwilym Humphreys, Mr. a Mrs. Brinley Jenkins, Mr. T. Arfon Williams, Mr. Geraint Walters, Miss Elen Ogwen, Mr. Kynric Lewis, Mr. a Mrs. Idris Evans, Mr. a Mrs. Arwel Hughes, Y Barnwr D. Watkin Powell, Mr. a Mrs. Huw Davies, Beti George, Mr. Gwyn Lewis Davies, Mr. Gareth Wallis Evans, Mr. a Mrs. H.Lloyd Evans, Mr.Alan Jobbins, Mr. Chris Rees, Mr. Robin Gwyndaf, Parch a Mrs. Wyn Vittle, Mrs. Nia Thomas, Mr. a Mrs. A.J. Couch, Mr. Howard Goodfellow, Dr. Elwyn Hughes, Mr. a Mrs. E.L. Jones, Mrs. Rhian Thomas, Mr. John D. Roberts, Mr. a Mrs. Roger Boore, Mr. D. Huw Owen, Mr. R.E. Hughes, Mr. a Mrs. Eirion Lewis, Mrs. Nia Wyn Williams, Dr. a Mrs. Meredydd Evans, Mr. Lyn Evans, Mr. John Turner, Mr. Michael Jones, Dr. a Mrs. E.J. Harries, Parch Dr. Dafydd G. Davies, Parch Emrys Cleaver, Mr. W.G. Parry, Syr Melville Rosser, Mr. B. Evans, Dr. Ceinwen Thomas, Dr. D. Davies, Miss Eiry Humphreys, Y Barnwr Hywel ap Robert, Dr. a Mrs. Dafydd Huws, Mr. a Mrs. W. Richards, Mr. E.L. Davies, Mr. G.S. Jones, Mr. a Mrs. R. Williams, Mr. a Mrs. D.E. Davies, Athro a Mrs. Gwynedd Pierce, Mr. Dafydd Williams, Mr. a Mrs. Alun Rowlands, Mr. M.W. Griffiths, Mr. J.S. Roberts, Mr. W.J. Thomas, Mr. a Mrs. T. Gwynne Jones, Mr. E.D. Jones, Mr. Elvet Thomas, Mr. D. Wynne Lloyd, Mr. G.T. Bevan, Mr. J.H. Evans, Mr. D. Alban Dyer, Athro A.O.H. Jarman, Dr. Thomas Parry, Dr. Urien Wiliam, Mr. Haydn Jones, Mr. a Mrs. Ifor Rees, Mr. Roy Saer, Mr. a Mrs. G.A. Coles, Mr. P.E.Bulmer, Mr. a Mrs. Iwan Humphreys, Miss Nans Jones, Dr. a Mrs. Gilbert Ruddock, Mr. R. Griffiths, Mr. Dafydd Gruffydd, Mr. Peter Gillard, Miss Eleri Hopcyn, Mrs. M. Davies, Mr. a Mrs. W.J. Jones, Mr. a Mrs. Owen Griffiths, Mr. a Mrs. Emrys Jarman.

CRONFA'R DINESYDD

ARCHEB BANC

At y Rheolwr ..........................(Banc)

................................(Cyfeiriad)

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis ......... bob blwyddyn wedi hynny oni ddi-ddymur yr archeb gennyf mewn ysgrifen y swm o ...............(mewn geiriau) £.....(mewn ffigurau).

Arwyddwyd: ..............................

Cyfeiriad: ..............................

Rhif ac enw'r Cyfrif ....................

Dylid anfon y ffurflen uchod at Mr. Emrys Jarman, Trysorydd Y Dinesydd, 198 Hill Rise, Llanedeyrn, yn hytrach na'i anfon at eich Banc.

Amgaeaf rodd o £ : i Gronfa'r Dinesydd.

Enw: ....................................

Cyfeiriad: ..............................

........................................

Anfoner at Mr. Emrys Jarman, 198 Hillrise, Llanedeyrn, Caerdydd.

PRIFATHRO NEWYDD I RYDFELEN

Llongyfarchiadau i Dafydd Jones, Dinas Powys, ar ei benodi yn brifathro Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Ar hyn o bryd, mae'n brifathro Ysgol Gyfun Dyffryn Ogwen, Bethesda, a bydd yn ymgymryd â'i swydd newydd yn Ionawr.

Mae'n briod â Janie, merch Mrs. D.T. Guy ac mae ganddynt bedwar o blant. Lowri, Dewi a Dylan sy'n ddisgyblion yn Ysgol Glantaf a Manon sy'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Penarth.


CYFLE ANARFEROL

Mae cynhyrchydd teledu profiadol yn chwilio am gynorthwywr/wraig gyda chymwysterau ysgrifenyddol. Cyflog i'w drafod. Llety ar gael yng Nghaerdydd. Rhif Bocs: 192351, 2, Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd.

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**


CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

Bydd Y Prifardd

GERALLT LLOYD OWEN

yn darllen ei waith

yn ORIEL


Nos Wener, 19 Tachwedd

am 7.30 p.m.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00— 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

# O'R SEDD GEFN

Dychmygwch fyd lle mae'n bwrw glaw yn ddi-baid a lle mae torchau o fwg yn llenwi'r awyrgylch yn barhaus. Dychmygwch ddinas lle mae'r strydoedd yn orlawn o bobl o bob lliw a llun yn tindroi ar y pafinoedd tra bo eraill yn gwibio o'r naill adeilad llwydaidd i'r llall gan geisio osgoi'r glaw. Dyna'r darlun a gyflwynir i ni gan Ridley Scott, cyfarwyddwr BLADE RUNNER, un o'r ffilmiau newydd sbon i gyrraedd sinemâu Caerdydd yn ddiweddar. (Gyda llaw, bu Scott yn byw yng Nghymru am rai blynyddoedd pan yn blentyn).



Lleolir y ffilm yn Los Angeles a'r flwyddyn yw 2019. Ceir ynddi ymgais deg a realistig i bortreadu bywyd ar y blaned hon ymhen rhyw ddeugain mlynedd. Rhyw fath o ffilm ddarogan yw hir, felly, yn ceisio proffwydo a rhybuddio, ond yn wahanol i'r llu o ffilmiau ffug wyddonol sy'n darparu'r un arlwy ar ein cyfer dro ar ôl tro, sef, llong ofod, merched hardd mewn dillad euraid, creaduriaid erchyll o blaned arall a darlun diaddurn, arall-fydol ac annhebygol o'r dyfodol pell, mae BLADE RUNNER yn trafod pethau tebygol, cig a gwaed - a'r lled gig a gwaed!

Mae cnewyllyn y ffilm yn syml iawn, sef, stori dditectif gyda Deckard (Harrison Ford), cyn-heddwas neu 'blade runner', yn erlid grŵp bychan o androids sy wedi gwrthryfela ar un o'r planedau eraill ac sy wedi dychwelyd i'r ddaear yn erbyn ewyllys eu meistri. Mae'n rhaid eu dal, felly, a'u lladd ac wrth i Deckard fynd ati i wneud hyn daw'r gynulleidfa i ddeall fod y rhan helaethaf o boblogaeth y ddaear yn byw bellach ar blaned arall ac mai gwehilion cymdeithas, yr afiach a'r annymunol sy'n poblogi'r ddaear, a rhyw ddaear afiach, annymunol yw hi hefyd o ran hynny!

Wrth wylio'r digwyddiadau hyn ni ellir ond tybio bod yma foeswers i'r ffilm. Mae'r pwyslais ar ddewis a dethol, ar wahanu ac ar berffeithio'r hil. Mae dyn wedi creu 'bywydau' sy mor real fel bod ganddynt ymennydd a chof a gorffennol ac ewyllys rydd. Cwyd nifer o gwestiynau yn y ffilm am hawliau sylfaenol ac yn enwedig am y cyfrifoldeb sy gan wyddonwyr. A oes ganddynt hawl a phenrhyddid i greu a chreu ynteu a ddylid cyfyngu ar eu harbrofi?

Mae'r ffilm yn wledd i'r llygad ac i'r glust gyda cherddoriaeth Vangelis yn gefnlen i'r ffotograffiaeth. Cefais lawer o foddhad o weld y ffilm hon, ond teimlaf er hynny y byddai'n fwy cyflawn petai Scott wedi canolbwyntio fwy ar ddangos gwahanol agweddau o'r bywyd bob dydd ac esbonio pam bod gweddill y boblogaeth wedi gadael y ddaear. Gellid dadlau bod y ffilm hon yn dilyn yn llinach CLOSE ENCOUNTERS a STAR TREK ond mi fyddwn yn tybio bod ei hapêl yn fwy cyfyng ac yn sicr mae ei thema yn fwy difrifol a phell-gyrhaeddol.

---

NEUADD DEWI SANT,
O safbwynt bensaerniol

Ar ôl dwy flynedd wedi'r dyddiad penodedig i'w orffen, a chodiad aruthrol yn y pris i dros £12 miliwn, yr haf yma, fe ddadorchuddiwyd yr adeilad yn Heol Working o'i ysgaffaldau i ddatguddio i'r cyhoedd Neuadd Gyngerdd Dewi Sant.

Os am farnu yr adeilad ar sail y rheswm dros ei godi, sef i greu neuadd i'w defnyddio er budd cyngherddau o safon cydwladol, yna credwn i'r fenter fod yn llwyddiant. Er fod y Neuadd yn gallu eistedd cynulleidfa o 2,000, nid yw helaethrwydd y lle yn creu teimlad o anesmwythder oblegid fod y seddau wedi eu gosod o amgylch y neuadd ar ffurf deiliau, a gellir gweld y llwyfan yn rhwydd o bob sedd. Ond os am werthfawrogi maint y Neuadd, dylid dod i mewn ar y chweched llawr ac edrych ar y rhesi o seddau yn ysgubo i lawr at y llwyfan. Mae'r llwyfan yn gymhlethdod technegol wedi ei rannu i ddeg rhan, gellir ei ehangu bob ochr, ei godi neu ei ostwng o dan lefel llawr y Neuadd er mwyn lleoli cerddorfa neu gamera.

Gwaetha'r modd, nid yw gweddill yr adeilad o'r un safon cynllunio; nid yw'r manylion pensaerniol wedi cael sylw cyson - ar un rhan gwelir addasrwydd y cownter tocynnau ac wrth ei ochr swits goleuo a fyddai'n fwy priodol mewn ffatri! Teimlad o fuddioldeb a geir o'r tu mewn ac nid un o gyfoeth fel ag a ddisgwylir mewn adeilad o'r math yma.

O'r tu allan, mae'r Neuadd yn edrych fel ymestyniad o Ganolfan Dewi Sant, yr un defnyddiau a ddewiswyd a does fawr o ddisgleirdeb pensaerniol yma, yn enwedig wrth ei gymharu â neuaddau diweddaraf yn Ewrop - lle ceir mwy o wydr ar wyneb yr adeiladau. Yn y nos, byddai goleuni o'r adeilad yn atyniad bywiog i'r Neuadd ac yn ystod y dydd, yn adlewyrchu yr adeiladau cyfagos - pa mor aml y gallwn fwynhau yn nhywydd y Brifddinas, yfed coffi ar yr orieli agored? Rhaid rhoi canmoliaeth i'r cynllunydd am y drafferth a gymerwyd er budd y methiedig, ac mae cyfleusterau iddynt dramwyo drwy'r adeilad. Yn yr un modd, roedd y penderfyniad o gynllunio ystafell fwyta a fyddai ar agor drwy gydol y dydd yn ganmoladwy - mae yn dod a'r cyhoedd i mewn i awyrgylch yr adeilad. Mae'n ofidus bod yn feirniadol o'r Neuadd newydd hon - ond teimlir y gallai fod yn llawer gwell - ac er i'r Neuadd Gyngerdd ei hunan fod yn llwyddiant nid yw'r adeilad yn ei gyfanwaith yn plesio.

John G. Roberts.
Ysgol Pensaerniaeth Cymru.

## CÔR CANOLFAN CAERDYDD

Mae'r côr yn cyfarfod bob wythnos ar nos Iau am 7.30 o'r gloch yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

Bwriad y côr yn ystod y flwyddyn ydyw cynnal un cyngerdd ffurfiol yn ogystal â chyngherddau llai, canu mewn Eisteddfodau, a nosweithiau llawen ac yn y blaen.

Fel y gŵyr aelodau presennol y côr mae nosweithiau cymdeithasol hefyd yn rhan bwysig o'n rhaglen. Mae taith penwythnos wedi cael ei drefnu i Sir Benfro yn ystod mis Tachwedd ac rydym yn gobeithio trefnu taith i'r Gogledd ym mis Mehefin '83.

Arweinydd y côr yw Islwyn Evans, athro cerdd ifanc sy'n dysgu yng Ngwent. Yn ogystal ag arwain Côr y Ganolfan bydd Islwyn hefyd yn hyfforddi rhai o bobl ifanc yr Aelwyd i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, ac hefyd i ganu carolau ar y stryd i godi arian tuag at achosion da. Fe fydd 'na groeso i aelodau'r côr sydd dan 25 oed i ymuno â nhw.

Hoffwn estyn gwahoddiad cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r côr. Os am wybodaeth bellach ynglyn â threfnu nosweithiau llawen neu gyngherddau, cysyllter â Carol Davies, Fflat 4, 145 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd.


Theatr Cymru

Cyfieithiad Elan Closs o "Translations" gan Brian Friel

# TORRI GAIR

Cyfarwyddwr EMILY DAVIES

Drama sy'n ddoniol a thrist wedi ei lleoli yn Iwerddon ym 1833. Newydd ymsefydlu y tu allan i bentref Baile Beag mae'r fyddin sydd yno i fapio'r ardal a syrthia un o'r milwyr mewn cariad â merch leol er nad yw'r naill yn deall y llall yn siarad.

" ... drama sy'n llawn ffraethineb, cynnwrf a chymeriadau hynod fywiog" (Jim Herrick)

Elfed Lewys, Mici Plwm, Phylip Hughes, Nia Caron, Geraint Lewis, Betsan Llwyd, Ynyr Williams, Alun ap Brinley, Richard Elfyn, Rhian Angharad Morgan.

THEATR SHERMAN CAERDYDD
Swyddfa Docynnau: Caerdydd 30451

Sul, 17 HYDREF 8.00

£3.00 gyda gostyngiadau i £2.50

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a chydweithrediad Cymdeithas Theatr Cymru.
Cwmni Theatr Cymru Cyf., Bron Castell, Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd. Rhif 1111411 - Llundain







S4C

TELEFFONYDD

Swydd ran-amser yw hon i ateb ffôn ym mhencadlys S4C o 4.30 p.m. hyd 9.30 p.m. o nos Lun hyd nos Wener.

Mae angen person all drin galwadau gan y cyhoedd yn gwrtais a chlir, yn Gymraeg a Saesneg, gan gadw cofnod trefnus o natur y galwadau hynny.

Gwneir yr apwyntiad am chwe mis.

Cyflog £46.50 yr wythnos.

Ceisiadau trwy lythyr, yn rhoi manylion perthnasol, at yr Ysgrifennydd, Sianel 4 Cymru, Clos Sophia, Caerdydd CF1 9XY, erbyn Hydref 18.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Y Sadwrn cyntaf ym Medi â'r awel yn dyner a'r môr yn dawel gwasgarwyd gweddillion yr annwyl ddiweddar Enid Jones-Davies ar greiglan Cwm Tydu yng Ngheredigion. Yno, ar lecyn gwyrddlas uwchlaw yr hen odyn galch a fu'n gyrchfan i deulu nodedig Y Cilie ers llawer dydd, y cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddi. 'Roedd yr oedfa yng ngofal ei gweinidog, y Parch. D.T. Evans, gyda'r Parchedigion Emlyn G. Jenkins ac Ifor Rees yn ei gynorthwyo, ac 'roedd ôl llaw trefnus ei holynydd ym Mryntaf, Mr. R.T. Evans, ar y cyfarfod cyfan. Cafwyd teyrngedau huodl i'w hawddgarwch ac i'w hymroddiad wrth arloesi addysg Gymraeg yng Nghaerdydd gan Mrs. Ethni Jones (Daniel gynt) ar ran cyn-ddisgyblion Bryntaf, gan y Barnwr Dewi Watkin Powell ar ran y cyn-rieni, gan Mr. Gwilym Roberts ar ran Mudiad Meithrin a chan Mr. R.T. Evans yntau. Bu Huw Jones a Dafydd Iwan yn canu i gyfeiliant gitâr ac ymunodd y gynulleidfa luosog i ganu'r emynau. Ar ran y teulu fe ddiolchodd ei brawd, y Parch Gerallt Jones, i'r cyfeillion oll am ddod ynghyd o bell ac agos.

Ysbryd dathlu a diolch oedd i'w deimlo yn cyniwair ar hyd llethrau Cwm Tydu drwy'r cyfan, a da oedd cael bod yno y diwrnod hwnnw. Yn ystod y cyfarfod darllenwyd englynion o waith y Parch D. Gwyn Evans (Talybont gynt), a braint yw cael eu cyhoeddi yn y Dinesydd er coffa cymwys un a weithiodd mor ddygn i hybu Cymreictod y Brifddinas.

Boed heddwch i'w llwch, ond gŵyr llu - nad yw
Ei dawn yng Nghwm Tydu;
Erys gwaith y Gymraes gu,
Dewr y dasg, wedi'r dysgu.

Pwy weithiodd dros y Pethe - â'i hynni
Fel Enid â'i chyfle?
Amryddawn, llawn ymhob lle,
Hen olud teulu'r Cilie.

Enid hoff oedd ym Mryntaf - a thrwyadl
Athrawes ffyddlonaf;
O'i hawydd mae cynhaeaf,
Mawr eu braint, o Gymry braf.

Ei holl aberth, pwy all wybod - ei swm
Na sêl ei chydwybod?
Yma'n ein clyw mwy na'n clod
Mawr actau ei Chymreictod.

Rhoddwyd cymwysterau addas - iddi
Yn waddol ac urddas;
Onid grym ynghyd â gras
Oedd hon yn y Brifddinas?

Er yr archoll o golli yr Enid
Dirionaf o'r cwmni,
Enid yw hon, nid yw hi
Yn fud ar nawn o Fedi.

D. Gwyn Evans.

CROESO I GAERDYDD

Croeso i Aled a Menna Gwynn, Non a Rolant sydd newydd ymgartrefu yn Wingfield Rd., Caerdydd. Penodwyd Aled yn ohebydd yn Adran Newyddion, Radio Cymru.

Croeso hefyd i Mr. Ogwen Jones o'r Pwllglas, ger Rhuthun, sydd wedi symud i Gaerdydd i fyw gyda'i ferch, Elen Ogwen, yn Heol Sant Isan.

PENODIAD NEWYDD I ADRAN Y WASG HTV CYMRU

Yn ddiweddar penodwyd Mr. Mansel Jones yn Ddirprwy Bennaeth Y Wasg, swydd newydd o fewn Adran y Wasg yn y Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd.

Mae gan Mr. Jones, 36 oed, brofiad eang mewn newyddiaduraeth a cysylltiadau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd yn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus y Gorfforaeth Ddur Brydeinig yng Nghymru am saith mlynedd, ac yn gyn Ohebydd Diwydiannol y Western Mail.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yma, bu Mr. Jones yn gweithio fel ymgynghorwr cysylltiadau cyhoeddus yn cynghori cwmniau masnachu ac adeiladu, cynghorau lleol ac asiantaethau creu swyddi.

Yn ei swydd newydd bydd Mr. Jones yn gyfrifol am berthynas HTV Cymru a'r Wasg, radio a theledu yng Nghymru a gweddill Prydain.

Bydd yn atebol i Bennaeth y Wasg a Cysylltiadau Cyhoeddus Cymru, Mr.David Meredith.

"Rwy'n falch bod newyddiadurwr o safon Mansel Jones yn ymuno â'r adran. Bydd yn arwain cysylltiad y cwmni â'r Wasg drwy Brydain.

"Daw Mansel Jones â cyfoeth o brofiad i'r adran ar bob agwedd o weithgarwch y Wasg".

Mae Mr. Jones yn hannu o Fanc-y-ffordd ger Llandysul, Dyfed. Ef yw ysgrifennydd Cymdeithas Cysylltiadau Cyhoeddus Cymru, ac yn ogystal mae'n aelod o bwyllgor cyhoeddusrwydd y Brifysgol Agored yng Nghymru ac yn Gadeirydd pwyllgor cyhoeddusrwydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd 1985.

Daw ei wraig, Kathleen, o Gaerdydd. Mae ganddynt dri mab, ac mae'r teulu yn byw yn Rhiwbeina.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

# Y SILFF LYFRAU

DEUNYDD DWBL, Harri Williams, Gwasg Gomer, £2.95.

'Nofel - os nofel hefyd'. Dyna ddisgrifiad yr awdur o'r gwaith trawiadol hwn a gafodd gryn ganmoliaeth flwyddyn yn ôl, yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth.

Y tu mewn i'r chwe rhan ceir cyfres o benodau byrion darllenadwy sy'n ein tywys trwy fywyd y nofelydd enwog o Rwsia, Ffiodor Dostoiefsci. Ar y cychwyn, mae'n fachgen bach synhwyrus yn byw yn Mosco; ar y diwedd mae'n marw, yn hen ŵr gwael, yn Sant Peterburg.

Nid yw'r awdur wedi gorlwytho'r gyfrol 200 tudalen hon. Amlinelliad a gawn o fywyd Dostoiefsci - ei fachgendod, cyfnod anhapus, mewn academi filwrol, alltudiaeth i Siberia, dwy briodas a chefndir creu'r nofelau clasurol.

Ar ôl cael fy hudo'n llwyr gan y tudalennau agoriadol, lle disgrifir perthynas Dostoiefsci â'i frawd a'u rhieni, cefais y rhannau dilynol, sy'n cyflwyno syniadaeth a dadleuon y cyfnod, braidd yn drwm. Mae'n siwr fod awdur pob nofel hanesyddol yn gorfod wynebu'r un problemau, ac ni chredaf i Harri Williams lwyddo'n hollol bob amser. Gwelir ôl straen ar ei ymdrechion i fod yn hanesyddol - addysgiadol heb lethu'r darllenydd.

Yr hyn sy'n achub y gyfrol yw'r disgrifiad dirdynnol o'r ergydion y bu'n rhaid i Dostoiefsci eu dioddef; profedigaeth yn dilyn profedigaeth, gwaeledd ofnadwy, a'r modd y daeth gamblo yn agos iawn at ei orchfygu'n llwyr.

Philip Wyn Jones.

SERYDDA, Aneurin Evans, Gwasg Gomer, £1.50.

Mae cynnwys y llyfr hwn yn drefnus dros ben. Ceir penodau ar offer serydda, gan bwysleisio nad oes angen sbienddrych drud; mae pâr da o finociwlars yn ddigon.

Am y tro cyntaf cyhoeddir mapiau a nodiadau ar y sêr ymhob tymor o'r flwyddyn yn Gymraeg. Manylir ar y prif gytser sydd i'w gweld o'r gaeaf drwodd i'r hydref. Mae penodau diddorol ar y lleuad, y planedau a'r haul. Er bod y penodau yma yn arbennig o ddiddorol i'r lleygwr credaf fod Aneurin Evans yn ceisio gwasgu gormod i benodau byrion.

Ar adegau mae'r iaith yn anystwyth ac ysgolheigaidd ond ar y cyfan â'r llyfr yn ei flaen yn hwyliog dros ben.

Mae'r print trwy gydol y llyfr yn glir a dealladwy a chredaf fod £1.50 yn bris rhesymol iawn am lyfr mor gynhwysfawr.

Rhys Morris.

Y Parch. T.J. Davies Cip, Christopher Davies, £1.50.

Casglwyd i'r gyfrol fach hon sgyrsiau amrywiol am gydnabod yr awdur, am bobl y daeth ar eu traws ar ei deithiau, teyrngedau i gyfeillion ar achlysuron arbennig, myfyrdodau a gweddiau - y cyfan o fewn ffrâm bywyd T.J. Davies, y gymdeithas Gymreig glos y mae'n hanu ohoni a'i ffydd Gristnogol.

Y rhain sy'n lliwio ei ymateb i bobl, i ddigwyddiadau ac i sefyllfa'r Eglwys Gristnogol yng Nghymru heddiw. Tra bo broliant y gyfrol yn ei hargymell i ni fel un heb hen sawr cas llan a chapel, un o ddiddordebau pennaf yr awdur yw 'offer' yr Eglwys - y bregeth, yr emyn, y weddi, a'r seiat. Dengys ei arswyd bod Cymry'n trin yr 'offer' yn ddiystyr a gofidia fod Cymry'n ystyried y Beibl yn ddiniwed am iddynt ei lastwreiddio. Mae'n gyfrol hyfryd i'w darllen. Hoffais yn fawr un o'r cyfarchion personol, i Catrin Nerys ar achlysur ei bedyddio. Fel "Bythol wyrdd" Tecwyn Ifan, mae'n fwy na cherdd fedydd yn unig. Mae ynddi ddyhead pob Cristion y caiff ei drin a'i feithrin a'i fagu o fewn 'y winllan'. Daw hiwmor T.J. Davies i'r amlwg hefyd a'i fwynhad yng nghwmni pob math o bobl. Wrth ddarllen, gwelwn eisiau lais bariton yr awdur ond ar ambell air gallwn 'glywed' ei bwyslais trawiadol - "cleddais hi yn nrâr fy ngholuddion..."

Cefais flas ar y gyfrol gynnes hon.

Lona Roberts.

DYSGU DAU (1), Anne Brooke, Gwasg Gomer, £2.50
BYDD YN DDEWR, IFAN BIFAN! Juli Phillips (addas.) Gwasg y Dref Wen, £2.40

Rhan gyntaf o gwrs deuddeg wythnos i ddysgu Cymraeg i rieni plant ysgolion meithrin a dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion dwyieithog ydy'r llyfryn Dysgu Dau (1) gan Anne Brooke. Cyflwynir patrymau iaith ar ffurf deialog wythnosol, i'r rhieni gael ymarfer gyda'u plant. Cyflwynir geirfa sylfaenol sy'n ymwneud â bywyd pob dydd y fam a'i phlentyn, dysgir rhigymau a rhoir awgrymiadau o gêmau y gellir eu chwarae a storiau y gellir eu darllen i'r plentyn, a hyn oll wedi eu gosod yn drefnus a chlir.

Mae'r awdures wedi gweithio cynllun manwl, hawdd iawn ei ddilyn, gyda chyfieithiad yn cydredeg ar ochr dde'r dudalen.

Mae yma nodiadau gramadegol a chrynodeb o eirfa'r wythnos i hwyluso'r gwaith o ymarfer i'r rhieni. Ceir hefyd restr o enwau llyfrau a chasetiau addas ar gyfer plant meithrin a gwybodaeth am y dull o fynd ati i'w prynu.

Dyma lyfr gwerth chwéil os nad hanfodol i rieni di-Gymraeg sy' wedi cymryd y cam pwysig o ddanfon eu plant i dderbyn addysg ddwyieithog.


-------

Mae Ifan Bifan eisoes wedi mynnu lle yng nghalon plant fy nosbarth i ac mi roedden nhw wrth eu boddau i weld llyfr arall yn y gyfres yma yn dod o'r wasg.

Yn y gyfrol hon mae Ifan Bifan yn dangos ei ddewrder mewn ffordd anarferol iawn yn y byd sydd ohoni. Hwyrach fod y pris braidd yn hallt gan gofio mai stori fer iawn yw hi.

Loreen Williams.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 26



**Ar Draws:**

1. Anheddau (3)
4. Arbedaf (6)
7. Cyfnod (4)
10. Rhywbeth a wnewch dros rywun -- yn dda neu yn wael (3)
14. Epil y famog (3)
16. Gadewch inni ymlonni(9)
17. Sarhad (3)
19. Anghywir (3)
20. Tebyg i (3)
22. Fframwaith y corff (7)
23. Cer am gyfran o ffisig(3)
25. Ychwanegu (5)
27. Gwnaeth hwn ei arch ei hun (3)
28. Tipyn bach, a blaen hwnnw wedi ei dorri (5)
31. Brathog (5)
34. Eithr (3)
36. Gweithdy'r wraig (5)
38. Ffiol y mêl (yn ôl un o'r Diliau) (3)
40. "Pan fo hwyl go sâl i ti,
    Gweidda -------
    Odid na thâl iti".
    (Manion, T.G.J.)(7)
42. Perthynas Absolom i Dafydd (3)
44. Iau (nid y dydd, na'r blaned) (3)
45. Cusan gan ferch o Wynedd (3)
47. Jams Niclas (9)
49. Swn sydd yn dod o'r ffrwyth (3)
51. Alaw heb het yn ymchwydd y môr (3)
53. Dolur (4)
54. Llariaidd (6)
55. Llydan (3)

**I Lawr:**

2. I. (2)
3. Eneinio (3)
5. Diolwg? (3)
6. Maldod (5)
8. Diymatal (7)
9. Brodor o (7)
11. Hyd bywyd yn wir (3)
12. Cyfarch un, a siarad â llawer (6)
13. Gair yn dynodi gweithred a whilber (5)
15. Y Wynfa (3)
18. Edward bach (3)
21. Ffordd hapus o dynnu'r het (3)
24. Tyn (5)
26. Hanner hanner dwsin(3)
29. Coeden y fynwent (4)
30. Y ferch (3)
31. Sefydlog, dibaid (7)
32. Amgylchyniad â byddin(7)
33. Coch y coed, ond gall hi fod yn llwyd hefyd (6)
35. "Ymhob --- diolchwch" 1 Thesaloniaid V. (3)
37. Bwyell gam yw neddau; a ellir cynnal cyfarfod ynddi ar ôl ei hunioni? (5)
39. Gwyrdd treigledig (3)
41. Coed gwyrddion (5)
43. Cerbyd cyhoeddus (3)
46. Pa' fodd? (3)
48 a 50. "Ni --- i neb --- yn ôl (3 a 3)
52. Ateb anffafriol (2)


## YN EISIAU - LLETY

Y mae cyn-fyfyriwr yn chwilio am lety mewn amgylchfyd Cymraeg (gorau oll Gwenhwyseg!) am 1983. Os ydych eisiau cynorthwyo dysgwr i ddod yn wir rugl, cysylltwch â Duncan Pugh, 112 Miskin St., Cathays, (398805).



## YN EISIAU

Tŷ neu Fflat i'w rentu yn Canton i mi a fy merch (10 oed). Rhent rhesymol a 3-5 ystafell o leiaf. Heb neu wedi ei ran-ddodrefnu. Ffoniwch 29039.


## CLWB CINIO'R MERCHED

Plât llawn o ginio a llond bol o chwerthin - dyna oedd hi yn y Thatchers ar noson agoriadol y Clwb. Ruth Parry gyda'i dawn arbennig o ddisgrifio "saga" dau wyliau mewn dwy fferm iechyd, oedd achos yr holl hwyl. Cafwyd ganddi ddarluniau geiriol cofiadwy iawn amdani'n hel mwyar i leddfu chwant bwyd, ac am y seremoni o ddail letys a darnau grawnffrwyth fel cinio nos. Mae ei sgwrs wedi codi awydd ar lawer o'r aelodau i fynd am 'wyliau' tebyg - felly Glwb Cinio Dynion Caerdydd, byddwch ofalus o'ch gwragedd oherwydd mae 'na gynlluniau ar droed!

## DATRYSIAD CROESAIR RHIF 25

**Ar Draws:** 1. PENIGAMP; 5. COSTUS; 9. SOFRENNI; 10. YN UNIG; 12. OFFEIRIAID; 13. STAER; 14. PAIS; 16. ARWISGO; 19. YMARFER; 21. EIDDO; 24. GWAWR; 25. IS-BWYLLGOR; 27. DANNOD; 28. ANELAIST; 29. GWARIO; 30. CORNELYN.

**I Lawr:** 1. PYSGOD; 2. NEF-OEDD; 3. GWEFR; 4. MANTAIS; 6. OFNUSRWYDD; 7. TANIAIST; 8. SEGURDOD; 11. YDFA; 15. ANFAWROLI; 17. DYSGEDIG; 18. CADHARNHA; 20. REIS; 21. ESBONIO; 22. EGNIOL; 23. CROTEN; 26. YFFLON.